Rydym yn cefnogi cyfeiriad y teithio a amlinellir yn **'Dyfodol Llwyddiannus'.**

Ni fydd ysgolion yn cael eu **'cosbi'** am roi cynnig ar rywbeth newydd neu wahanol.

O'r dechrau, mae arolygwyr wedi **cymryd rhan mewn agweddau amrywiol ar y rhaglen arloesi**, gan fynychu digwyddiadau arloesi, a chysylltu â Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol a staff o ysgolion arloesi.

Mae hyn yn dangos **ein hymrwymiad i'r prosiect arloesi** ac mae wedi galluogi i ni ddeall rôl yr ysgolion arloesi.

Rydym yn cefnogi'r hyblygrwydd a ddarperir gan y **cyfnod arolygu saith mlynedd** i ryddhau amser i gymryd rhan yn natblygiadau'r cwricwlwm.

Hoffai arolygwyr weld **cwricwlwm creadigol ac arloesol** a **datblygiadau dysgu proffesiynol** sydd o fudd i ddysgwyr.

Newidiadau i arolygu o Fedi 2016

Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i bob tîm arolygu adrodd ar safonau mewn TGCh yn yr un ffordd ag y maent ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Hyd nawr, rydym wedi adrodd trwy eithriad yn unig ble mae safonau mewn TGCh yn rhagorol neu'n anfoddhaol. Mae'r newid hwn yn gyffyrddiad ysgafn yn y system i gefnogi datblygiadau yn y dyfodol, ond mae'n bwysig nodi nad yw Estyn yn arolygu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar hyn o bryd.

"Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol yn cefnogi arloesedd a dawn greadigol wrth gyflwyno cwricwlwm ysgogol ar gyfer ei dysgwyr. Dylai arolygwyr ddefnyddio dull arloesol a hyblyg mewn ffordd gadarnhaol pan fydd ysgolion wedi ceisio bod yn greadigol a dychmygus wrth ddatblygu mentrau er budd disgyblion."

"Dylai arolygwyr ystyried pa mor effeithiol yw unrhyw ddatblygiadau mewn perthynas â rhaglen Llywodraeth Cymru i gefnogi a gwella dysgu proffesiynol ymarferwyr, staff cymorth, athrawon ac arweinwyr ysgol er budd disgyblion."

www.estyn.llyw.cymru
@EstynAEM